


# DOLEN

YSGOL BRO TEIFI

Rhifyn 13 - 25ain o Dachwedd 2025

## Neges y Pennaeth




Croeso i chi i rifyn arall o gylchlythyr Dolen. Mae'r wythnosau sydd wedi mynd heibio ers y rhifyn diwethaf wedi bod yn hynod o brysur ac yn llawn gweithgareddau addysgol, teithiau a llwyddiannau. Fe glywch am nifer ohonynt o fewn y rhifyn hwn ond cofiwch hefyd ddilyn ein tudalen Facebook lle cewch hyd yn oed mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n mynd ymlaen yn ein hysgol.

Bu'r wythnosau diwethaf hefyd yn brysur iawn wrth i'n disgyblion hŷn gael y cyfle i berfformio sioe gerdd Sŵper Trŵper ar lwyfan yr ysgol. Bu'r sioe yn llwyddiant ysgubol gyda chanmoliaeth uchel iawn i safon y perfformiadau - 5 ohonynt i gyd dros ddau ddiwrnod a thair noson. Pleser oedd gweld ein disgyblion talentog yn diddanu cynulleidfaoedd ac yn arddangos gwerthoedd craidd yr ysgol ar eu gorau.

Mae'r 4 wythnos sy'n weddill o'r tymor yn addo i fod yn brysur tu hwnt eto. Disgwyliwn ymlaen nawr at ein disgyblion oed cynradd yn cael eu tro nhw i berfformio ar lwyfan wrth iddynt gyflwyno sioe Syrffio ar y Sgwâr ar y 10fed a'r 11eg o Ragfyr. Mae'r tocynnau yn gwerthu yn gyflym felly da chi, ewch i www.ticketsource.co.uk/ysgol-bro-teifi er mwyn sicrhau eich tocynnau chi!

Darllenwch ymlaen er mwyn dysgu mwy am yr hyn sydd ymlaen yn yr ysgol ac edrychaf ymlaen i gysylltu gyda chi eto cyn diwedd y tymor i rannu newyddion pellach.

*G Evans*

# Ffocws ar Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu







## Taith Blwyddyn 9

Bu disgyblion Blwyddyn 9 yn Theatr Ffwrnes yn Llanelli yn gweld cynhyrchiad cyffrous o ‘Romeo a Juliet’ gan Theatr Cymru. Roedd y cynhyrchiad yn un ddwyieithog gwreiddiol ac unigryw wrth i’r Montagues a’r Capulets ymladd dros y ddwy iaith. Roedd y pâr o gariadon ifanc yn barod i fentro popeth yn y stori garu drasig enwog. Mae’r ddrama bellach yn y Globe yn Llundain, y cynhyrchiad cyntaf Cymraeg erioed yn y theatr Shakespearaidd enwog.

## Ymweliad Prifardd

Daeth y Prifardd Ceri Wyn Jones i gynnal dau sesiwn gyda’n disgyblion. Yn gyntaf, daeth i drafod ei gerdd ‘Hen Ŵr y Môr’ gyda Blwyddyn 10, fel paratoad i’w gwaith cwrs Cymraeg. Yn ail, daeth i drafod sut mae mynd ati i werthfawrogi darn o farddoniaeth gyda Blwyddyn 11, ar gyfer eu harholiad Llenyddiaeth Gymraeg ym mis Ionawr.





## Llwyddiant Llenyddol

Mae Mali Evans wedi profi cryn lwyddiant gyda’i hysgrifennu creadigol yn ddiweddar. Mae hi wedi ennill tri Thlws yr Ifanc mewn Eisteddfodau lleol, ac enillodd y Goron yn Eisteddfod CFfI Ceredigion yn ystod gwyliau’r hanner tymor.

## Taith Breswyl

Aeth rhai o’n disgyblion Lefel A Cymraeg ar daith breswyl i Lanllyn. Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd ymweld â’r Ysgwrn, darlith gan Caryl Lewis ar ei nofel ‘Martha, Jac a Sianco’ a chyflwyniad am fanteision y Gymraeg gan Lili Jones.



# Ffocws ar Ddyniaethau



Aeth grŵp TGAU Daearyddiaeth blwyddyn 11 i wneud eu gwaith maes yn nhref Aberystwyth. Yno fe wnaethant amrywiaeth o waith maes wrth astudio anghydraddoldeb mewn ardaloedd gwahanol yn y dref.

# Ffocws ar Iechyd a Lles

**Darparwyd sesiynau Iechyd a Lles ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 10 i 13.**
**Derbyniodd y disgyblion i gyd wybodaeth gwerthfawr ar gyffuriau gan Sarah o Barod. Bu Blwyddyn 11 yn canolbwyntio ar eu sgiliau astudio a phwysigrwydd bod yn ddiogel tra bu Blwyddyn 10 yn dysgu am ddulliau ymlacio. Cynhaliwyd sesiynau ar UCAS, paratoi ar gyfer y Brifysgol, ynghyd â sesiwn ffitrwydd**
**i Flynyddoedd 12 a 13.**

**Mae'r adnoddau ar gyfer sgiliau adolygu a rannwyd â'r disgyblion, a gyda rhieni Blynyddoedd 10 ac 11 yn y noson Llwyddiant a Lles, ar gael ar wefan yr ysgol.**

Cyflwyniad - Noson Llwyddiant a Lles i Rieni Blwyddyn 10/11 | Ysgol Bro Teifi

# Ffocws ar Gelfyddydau Mynegiannol



## Gweithdy Cyfansoddi

Mynychodd ein disgyblion TGAU Cerddoriaeth Weithdy Cyfansoddwr Ifanc Dyfed yn Ysgol Gyfun Aberaeron. Cafwyd bore hyfryd gydag ensemble BBC National Orchestra of Wales a'r gyfansoddwraig preswyl Lynne Plowman.

Cafodd disgyblion Blynyddoedd 7 ac 8 y cyfle i wylio perfformiad Arad Goch o 'Colli Hi.' Cawsant flas ar fywyd Dwayne sy'n 15 oed, cymeriad â'i deulu ar chwâl. Gyda heriau iechyd meddwl, straen, a phwysau bywyd modern yn eu rhwygo ar wahân, roedd Dwayne yn gorfod ceisio cadw popeth gyda'i gilydd. Roedd hon yn stori emosiynol ond llawn hiwmor, a oedd yn taflu goleuni ar gymhlethdodau bywydau teuluol heddiw.









# Ffocws ar Gelfyddydau Mynegiannol

Llongyfarchiadau i'n disgyblion a fu'n cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberystwyth. Gwnaeth y parti Alaw Werin gipio'r 2ail wobr a gwnaeth Efa James ddod yn drydydd yn yr Unawd Alaw Werin. Cystadlodd  Marged yn yr Unawd Cerdd Dant hefyd a bu criw o ddisgyblion yn cystadlu yn y Parti Llefaru i gyfeiliant. Braf oedd gweld ein disgyblion ar y llwyfan.

GŴYL CERDD DANT
2025
ABERYSTWYTH A'R FRO






YSGOL BRO TEIFI

# SIOE BL. 3-6
# YSGOL BRO TEIFI
# YEARS 3-6 SHOW

## SYRFFIO AR Y SGWÂR

Perfformiadau ar y 10fed a'r 11eg o Ragfyr am 6yh yn Neuadd Ysgol Bro Teifi

Performances on the 10th and 11th of December at 6pm in Ysgol Bro Teifi Hall





**TOCYNNAU AR WERTH: £5 I OEDOLION A £3 I BLANT**

**TICKETS FOR SALE: ADULTS £5 AND CHILDREN £3**

# Sŵper Trŵper



Cafwyd 5 perfformiad graenus gan ein disgyblion oed uwchradd yn ein sioe 'Sŵper Trŵper.' Roedd yr wythnos yn uchafbwynt arbennig i wythnosau o ymarfer a diolchwn i'r disgyblion am eu hymroddiad, ac i'r staff a fuodd ynghlwm â'r sioe hefyd.



Roedd gweld dros 150 o ddisgyblion yn rhan o'r cynhyrchiad yn olygfa arbennig iawn, ac mi fydd y sioe yn sicr yn aros yn y cof.














DONNA




















POST




















Ysgol Bro Teifi
yn cyflwyno
SŴPER TRŴPER
19 - 21 o Dachwedd 2025

# Diolch

unwaith eto i'n holl noddwyr.

Ysgol Bro Teifi
yn cyflwyno
SŴPER TRŴPER
19 - 21 o Dachwedd 2025

# Sioe Nadolig

## Dosbarth Ceri & Cylch Meithrin

2yp / 2pm

17.12.25

Neuadd
Ysgol Bro Teifi
Hall



£3 - yn cynnwys diod poeth a chacen

£3 - includes a hot drink and cake




**Bydd Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn canu yn y Ffair Nadolig.**





# Ffocws ar Bynciau Galwedigaethol

## Twristiaeth

Cynhaliwyd disgo Calan Gaeaf ar y 23ain o Hydref, lle'r oedd y neuadd yn orlawn, er mwyn codi arian i Gylch Meithrin Bro Teifi. Llongyfarchiadau enfawr i Efa, Ann a Mia am drefnu noson lwyddiannus fel rhan o'u gwaith wrth astudio'r pwnc Twristiaeth ym Mlwyddyn 13.





## Amaeth

Cafodd disgyblion Amaeth blynyddoedd 10 ac 11 ddiwrnod arbennig yng Ngholeg Amaethyddol Gelli Aur. Darparwyd saith gweithdy amrywiol iawn o edrych ar fwydydd gwartheg, porfa, technoleg amaethyddol, peiriannau, tractorau, trin lloi a defaid. Bu'r diwrnod hefyd yn gyfle i bawb gael blas ar arlwy y coleg.



# PobUrdd a ChogUrdd Rownd Ysgol

Bu cystadlu brwd yng nghystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd yn y rowndiau ysgol. Llongyfarchiadau gwresog i bawb a gystadlodd.



**CogUrdd Bl.4 - 6:**
1af - Katie Thomas
2il - Efa James
3ydd - Iola Riddell





**PobUrdd Bl.4 - 6:**
1af - Emily Jones
2il - Katie Thomas
3ydd - Erin Jones, Anest Lloyd a Gwenno Jones





**CogUrdd Bl.7 - 9:**
1af - Magi Williams
2il - Elsi Williams
3ydd - Cerian Jenkins

**CogUrdd Bl.10 - 13:**
1af - Lucie Green
2il - Kelsey Carter



**PobUrdd Bl.7 - 13:**
1af - Elen Jones
2il - Sian Reader
3ydd - Beca Elias-Davies

# Poburdd a Chogurdd Rownd Rhanbarthol





## CogUrdd Bl.7 - 9

2il - Magi Williams



## CogUrdd Bl.10 - 13

2il - Lucie Green



## PobUrdd Bl. 7 - 13

1af - Elen Jones

Pob lwc i Elen wrth iddi gynrychioli'r ysgol a Cheredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai.



# Llangrannog







Cafodd  disgyblion blwyddyn 7 amser wrth eu boddau ar daith breswyl i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Roedd yn gyfle arbennig iddynt gymdeithasu ac i ddod i adnabod ei gilydd wrth iddynt ymgartrefu yn yr ysgol.





**sgio**

*Gwibgartio*

**datrys problemau**







# Diwrnodau Pontio Blwyddyn 6!

**Braf oedd croesawu disgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion y dalgylch aton ni. Fe fuont wrthi'n mwynhau trawsdoriad o weithgareddau cyffrous!**













# Pencampwyr Ceredigion





HOCI

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm hoci dan 16 ar eu llwyddiant yn nhwrnamaint Ceredigion.

RYGBI

Llongyfarchiadau mawr i dîm rygbi bechgyn blwyddyn 9. Ers dychwelyd i'r ysgol, maent wedi'u coroni'n Bencampwyr Rygbi Ceredigion.



**PÊL-DROED**

**Llongyfarchiadau i'r tîm merched dan 13 am ennill Twrnamaint Pêl-droed Ceredigion. Pob lwc iddynt yn y rownd nesaf o Gwpan Cymru.**

**Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm bechgyn dan 13 am gyrraedd ffeinal y Twrnamaint, ac am ddod yn ail. Aeth y gêm honno i giciau o'r smotyn.**







# Pencampwyr Ceredigion





🎉 Llongyfarchiadau enfawr i'n merched pêl-rwyd Dan 16 a Dan 18!

Cafwyd perfformiadau ardderchog gan y merched gan hawlio teitlau Pencampwyr Ceredigion ym Mhencampwriaeth Ann Smart a Chwpan y Llywydd!

Bydd y ddau dîm yn cystadlu eto yn rownd Dyfed cyn bo hir - pob lwc iddyn nhw wrth iddyn nhw barhau â'u taith!

Ar nodyn arall, rydym yn gwneud cais mawr am noddwyr i helpu sicrhau ffrociau pêl-rwyd newydd i'r ddau grŵp oedran, Dan 18 a Dan 16.
Os allwch chi gefnogi neu os rydych yn adnabod busnes a allai fod â diddordeb, cysylltwch â'r adran Addysg Gorfforol. Byddai unrhyw gymorth yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

# Pêl-droed Ysgolion Ceredigion

Llongyfarchiadau i'n disgyblion sydd wedi cael eu dewis i fod yn rhan o garfannau timoedd Ysgolion Ceredigion ar gyfer 2025-26. Pob lwc iddyn nhw ar gyfer y tymor.



**Bechgyn Dan 12:**
Leo Allen
Wil Guilford

**Bechgyn Dan 13:**
Noa Potter-Jones
Arthfael Edwards
Deio Thomas
Flynn Davies





**Merched Dan 13:**
Martha Silvestri-Jones
Esyllt Thomas
Mali Jones
Manon Gruffudd
Marged Dafis



**Bechgyn Dan 14:**
Efan Evans
Tomi-Jac Regan
Tomos Humphries
Caio Lloyd
Dion Siencyn Evans





**Merched Dan 14:**
Anna Evans
Erin Owen



**Bechgyn Dan 16:**
Isaam Minani

**Merched Dan 16:**
Anna Evans
Alis Evans
Mali Jones
Hana Evans





# Chwaraeon



Llongyfarchiadau mawr i Amelia Williams am ddod yn ail yn Nghystadleuaeth Trawsgwlad Ysgolion Cymru yn Aberhonddu.

Llongyfarchiadau enfawr i Dion Siencyn wrth iddo gynrychioli Ysgolion Gogledd-orllewin Cymru yng nghystadleuaeth Cwpan Rhanbarthol Ysgolion Cymru.





PENCAMPWYR!
Mae ein tîm rygbi merched dan 18 yn Bencampwyr Rhanbarth y Scarlets! 🏉
Cafwyd ymdrech anhygoel gan y tîm - ennill 20–5 mewn amodau erchyll ar y cae 4G yng Nghlwb Rygbi Llanymddyfri.



# Chwaraeon




Llongyfarchiadau mawr i Twm Thomas, Osian Williams, Gruffudd Dafis a Dewi Ifan ar gystadlu ym mhencampwriaeth sgïo ysgolion Cymru. Da iawn ar gymhwyso i gystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain fel tîm.



Llongyfarchiadau i Celyn Davies a Mali Macdonald ar eu llwyddiant yn y gamp karate. Buon nhw'n cystadlu yn y 'Welsh Open.' Cafodd Celyn fedal arian yn y gystadleuaeth 'Japanese Kata' ac enillodd Mali ddwy fedal efydd yn y cystadlaethau 'Kumite' a'r 'Japanese Kata.'




Llongyfarchiadau i Steffan Williams ar ei lwyddiant arbennig ym Mhencampwriaeth Hwylio Ieuenctid ac Iau Cymru yn yr Academi Hwylio Genedlaethol ym Mhwllheli. Enillodd bob ras gan ddod yn Bencampwr ILCA6 Ieuenctid Cymru.

# Pencampwyr Pêl Rwyd!




**Twrnament De Ceredigion**

Cafwyd diwrnod gwych o bêl-rwyd gan ferched blwyddyn 6. Chwaraeodd y ddau dîm gan ddangos sgiliau arbennig! Llongyfarchiadau i dîm B am ennill twrnament De Ceredigion.

**Twrnament Ceredigion**

Aeth y tîm ymlaen i chwarae yn nhwrnament Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr ar ennill y gêm honno, gan ddod felly'n Bencampwyr Ceredigion.

# Llwyddiannau Eraill

**Llongyfarchiadau i Elliw Davies am ennill Tywysydd Ifanc y flwyddyn dros Brydain. Arbennig!**



# Rhai o'n Gwerthoedd Craidd ar Waith

## CAREDIGRWYDD



Diolch yn fawr iawn i ddisgyblion y Chweched a drefnodd ddau fore coffi yn yr ysgol - un i staff y Cynradd, a'r llall i'r staff Uwchradd a'r Chweched Dosbarth. Bydd £405.95 yn mynd at yr elusen Macmillan.

## CYMREICTOD

**Hyrwyddwyd diwrnod Shwmae Sumae yn yr ysgol, gan greu dwy fideo i ddathlu'r diwrnod a'n Cymreictod.**








# Rhai o'n Gwerthoedd Craidd ar Waith

## CAREDIGRWYDD





## £1286.20

Da iawn a DIOLCH i bawb a gyfrannodd at lwyddiant Diwrnod Plant Mewn Angen eleni eto. Cafwyd diwrnod arbennig gyda nifer o weithgareddau: diwrnod mewn pyjamas/gwisg o ddewis, gwerthu cacennau, helfa drysor, cwis, a gêm bêl-rwyd rhwng y Chweched a'r Staff.





# PAM MAE PRESENOLDEB YN BWYSIG

Nid yw 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos yn ymddangos fel llawer, ond......

**95%**

Yn gyfartal i =
9 diwrnod wedi'u colli
18 sesiynau wedi'u colli
1.4 wythnosau wedi'u colli
45 gwersi wedi'u colli i

**90%**

Yn gyfartal i =
19 diwrnod wedi'u colli
38 sesiynau wedi'u colli
3.4 wythnosau wedi'u colli
95 gwersi wedi'u colli

**80%**

Yn gyfartal i =
36 diwrnod wedi'u colli
72 sesiynau wedi'u colli
7.1 wythnosau wedi'u colli
180 gwersi wedi'u colli

**70%**

Yn gyfartal i =
57 diwrnod wedi'u colli
114 sesiynau wedi'u colli
11.2 wythnosau wedi'u colli
285 gwersi wedi'u colli

**65%**

Yn gyfartal i =
67 diwrnod wedi'u colli
134 sesiynau wedi'u colli
13.2 wythnosau wedi'u colli
335 gwersi wedi'u colli

# BETH I WNEUD PAN MAE EICH PLENTYN YN GWRTHOD MYNYCHU YSGOL

### CYFEILLGARWCH A RHYNGWEITHIO CYMDEITHASOL

Atgoffwch nhw fod yr ysgol yn lle pwysig i gwrdd â ffrindiau, 'cadw mewn cysylltiad' â'r hyn y mae eu cyfoedion yn ei wneud, yn ogystal â datblygu sgiliau i ddelio â sefyllfaoedd anghyfforddus. Gall colli'r cyswllt cymdeithasol pwysig hwn â'r ysgol ychwanegu at bryderon sy'n bodoli eisoes a gwadu cyfleoedd allweddol iddynt ddysgu sut i ddelio â phroblemau cymdeithasol bob dydd.

### NEGESEUON CLIR

Ni ddylai'r cwestiwn fod os yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol ond pryd y bydd yn mynd. Sicrhewch fod eich plentyn yn ymwybodol mai'r disgwyl yw ei fod yn mynychu'r ysgol. Mae gosod disgwyliadau clir yn osgoi dryswch a ffiniau aneglur ond hefyd yn cynyddu'r siawns y bydd y plentyn yn cyflawni'r nodau a osodwyd ar ei gyfer.

### BYDDWCH YN HONEST

Defnyddiwch ddatganiadau fel 'Rwy'n teimlo...' neu 'Pan fyddwch yn gwrthod, mae'n gwneud i mi deimlo....' . Mae defnyddio'r datganiadau hyn yn ffordd gadarnhaol o roi gwybod i'ch plentyn sut rydych chi'n teimlo. Mae'n caniatáu iddynt ystyried pethau o'ch safbwynt chi. Bydd esbonio i'ch plentyn sut rydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n cael cyfarfod neu lythyr gan yr ysgol / awdurdod lleol yn ei helpu i sylweddoli sut mae'r sefyllfa'n effeithio arnoch chi.

### PETHAU POSITIF

Mae cydnabod llwyddiannau cadarnhaol yn bwysig. Canolbwyntiwch ar y pethau da e.e. ffrindiau ysgol, hoff bynciau ac ati. Defnyddiwch ddatganiadau fel 'Rwy'n gwybod y gallwch chi ei wneud' 'Rydych chi wedi'i wneud o'r blaen, gallwch ei wneud eto' neu 'rydym wedi trafod hyn. Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?' Bydd y datganiadau hyn yn annog y plentyn i wynebu yn hytrach nag osgoi tarddiad ei bryderon.

### TEIMLO YN SAL

Gall eich plentyn gwyno am gur pen, poenau yn y stumog, teimlo'n sâl. Mae'n bwysig sefydlu nad oes ganddynt salwch parhaus difrifol, sy'n eu hatal rhag bod yn yr ysgol.

### BOD YN DREFNUS

Gwnewch yn siŵr eich bod yn drefnus er mwyn cael eich plentyn i'r ysgol mewn pryd. Gall llawer o ddisgyblion deimlo cywilydd yn hawdd os ydynt yn cyrraedd yn hwyr i'r dosbarth sydd wedyn yn effeithio ar eu ffocws. Efallai y bydd angen i chi hefyd sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer cawodydd, brecwast ac ati. Byddai arferion da eraill yn cynnwys negodi cyrffyw 'diwrnod ysgol' rhesymol.

### GWOBRWYO YMDDYGIAD CADARNHAOL

Mae gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn hanfodol i atgyfnerthu presenoldeb da yn yr ysgol. Drwy gydnabod bod eich plentyn yn codi'n brydlon, yn gwisgo'n ddiffwdan, cyrraedd yr ysgol ar amser, yn ei annog i ailadrodd yr ymddygiadau hyn. Weithiau mae canmoliaeth a chydnabyddiaeth yn ddigon i blant.
Nid oes angen i wobrau fod yn gostus e.e. coginio eu hoff bryd.

### CYDWEITHIO

Rydym yn cydnabod bod sefyllfa pawb yn wahanol.

Os teimlwch fod sefyllfaoedd yn eich bywyd neu fywyd eich plentyn sy'n eu hatal rhag mynychu'r ysgol/mynychu'n brydlon, gallwch gael cyngor a chefnogaeth gan eich ysgol neu'r Awdurdod Lleol. Rydyn ni i gyd yma i'ch helpu a'ch cefnogi.

I siarad â'r Awdurdod Lleol cysylltwch â 01545 570881 a gofynnwch am gael siarad â rhywun o'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.



# GWRTH FWLIO

## Mae lles ein disgyblion yn bwysig i ni yma yn Ysgol Bro Teifi.

Os oes gennych chi neu eich plentyn unrhyw bryder am les disgybl gan gynnwys bwlio mae sawl ffordd y gallwch gysylltu â ni:

BOTWM BECSO

Mae'r Botwm Becso ar dudalen gartref ein gwefan. Wrth glicio ar y botwm a llenwi'r manylion, bydd eich neges yn ein cyrraedd ni.

E-bostiwch yr ysgol ac fe drefnwn ni alwad ffôn neu gyfarfod:

swyddfa@ysgolbroteifi.ceredigion.sch.uk




**Byddwn fel ysgol yn parhau i godi ymwybyddiaeth ein disgyblion o fwlio.**
**Atgyfnerthwn egwyddorion yr ysgol:**

PARCH

TEGWCH

CAREDIGRWYDD

**Gwahoddiad i ddisgyblion Bl 11 a 13 llynedd**

Gwahoddiad i

# NOSON WOBRWYO

## Ysgol Bro Teifi 2025

**NOS IAU 18FED RHAGFYR 2025 | 19:00**

DARPERIR LLUNIAETH YSGAFN

RSVP erbyn 10/12/25

Naill ai drwy'r ddolen ar Facebook,

E-bost: swyddfa@broteifi.ceredigion.sch.uk,

neu Ffôn: 01559 362503